OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 Rhif 367 (Cy. 112)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") yn nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r gofynion hyfforddi mewn perthynas â data perfformiad ysgolion wedi eu nodi ar hyn o bryd mewn dogfen o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data ysgolion", y cyfeirir ati yn y diffiniad o "yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion" ("dogfen 2018") yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2013. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad hwnnw er mwyn rhoi yn lle'r cyfeiriad at Ddogfen 2018 gyfeiriad at yr hyfforddiant newydd ar ddata perfformiad ysgolion a nodir mewn dogfen o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru: deall rôl data o ran cefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion" a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 ("dogfen 2020"). Gellir ei gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod llywodraethwyr ysgol a gwblhaodd yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion yn nogfen 2020, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, i'w trin fel pe baent yn bodloni'r gofynion hyfforddi ar ddata perfformiad ysgolion o dan Reoliadau 2013.

# 2021 No. 367 (W. 112)

# EDUCATION, WALES

## The Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) (Amendment) Regulations 2021

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013 ("the 2013 Regulations") set out the training requirements for governors at maintained schools in Wales. The training requirements in relation to school performance data are currently set out in a document entitled "Training for school governors in Wales on understanding school data", which is referred to in the definition of "the school performance data training" ("the 2018 document") in regulation 2(1) of the 2013 Regulations. Regulation 2 of these Regulations amends that definition so as to replace the reference to the 2018 Document with a reference to the new school performance data training set out in a document entitled "Training for school governors in Wales: understanding the role of data in supporting self-evaluation and improvement in schools" published in November 2020 ("the 2020 document"). It can be found on the Welsh Government website: www.gov.wales.

Regulation 3 provides that school governors who completed the school performance data training in the 2020 document, before the coming into force of these Regulations, are to be treated as meeting the school performance data training requirements under the 2013 Regulations.

Mae rheoliad 4 yn cynnwys darpariaeth arbed y mae ganddi'r effaith fel nad oes rhaid i lywodraethwyr ysgol presennol gwblhau'r hyfforddiant yn nogfen 2020 os ydynt eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 4 contains a saving provision the effect of which is that existing school governors do not have to complete the training in the 2020 document if they have already completed the training required by the 2013 Regulations before these Regulations came into force.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 367 (Cy. 112)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *23 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *14 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 22(3) a (4) a 32(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 a deuant i rym ar 14 Ebrill 2021.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2013" yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013(**2**).

**Diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013**

**2.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2013, yn y diffiniad o "yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion", yn lle "ym mis Mehefin 2018 o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data

(**1**) 2011 mccc 7.
(**2**) O.S. 2013/2124 (Cy. 207), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/1132 (Cy. 111), O.S. 2014/2225 (Cy. 214), O.S. 2016/137 (Cy. 66) ac O.S. 2018/766 (Cy. 153).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 367 (W. 112)

# EDUCATION, WALES

## The Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) (Amendment) Regulations 2021

| | |
|---|---|
| *Made* | *19 March 2021* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *23 March 2021* |
| *Coming into force* | *14 April 2021* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers in sections 22(3) and (4) and 32(2) of the Education (Wales) Measure 2011(**1**), make the following Regulations.

**Title, commencement and interpretation**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) (Amendment) Regulations 2021 and they come into force on 14 April 2021.

(2) In these Regulations, "the 2013 Regulations" means the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013(**2**).

**Amendment of the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013**

**2.** In regulation 2(1) of the 2013 Regulations, in the definition of "the school performance data training", for "in June 2018 and called "Training for school governors in Wales on understanding school data"",

(**1**) 2011 nawm 7.
(**2**) S.I. 2013/2124 (W. 207), amended by S.I. 2014/1132 (W. 111), S.I. 2014/2225 (W. 214), S.I. 2016/137 (W. 66) and S.I. 2018/766 (W. 153).

ysgolion”” rhodder “ar wefan llyw.cymru(**1**) ar 18 Tachwedd 2020 o’r enw “Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru: deall rôl data o ran cefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion””.

**Hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion a ddilynir gan lywodraethwr sydd i’w drin fel pe bai’n bodloni’r gofynion hyfforddi o dan Reoliadau 2013**

**3.**—(1) Mae llywodraethwr a gwblhaodd, rhwng 18 Tachwedd 2020 a’r adeg y daw’r Rheoliadau hyn i rym, hyfforddiant i lywodraethwyr ynghylch data perfformiad ysgolion a bennir yn nogfen 2020 a ddarperir gan awdurdod lleol neu ar ei ran i’w drin, at ddiben rheoliad 5(1) a (3) o Reoliadau 2013, fel pe bai wedi cwblhau’r hyfforddiant gofynnol ar ddata perfformiad ysgolion.

(2) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “dogfen 2020” (“*the 2020 document*”) yw’r ddogfen hyfforddi ar ddata perfformiad ysgolion a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar wefan llyw.cymru ar 18 Tachwedd 2020 o’r enw “Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru: deall rôl data o ran cefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion”;

mae i “hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion” (“*school performance data training*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2013.

**Darpariaeth arbed**

**4.** Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i lywodraethwr a gwblhaodd, cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym, yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion sy’n ofynnol gan Reoliadau 2013.

substitute “on the gov.wales website(**1**) on 18 November 2020 and called “Training for school governors in Wales: understanding the role of data in supporting self-evaluation and improvement in schools””.

**School performance data training undertaken by a governor that is to be treated as meeting the training requirements under the 2013 Regulations**

**3.**—(1) A governor who, between 18 November 2020 and the coming into force of these Regulations, completed training for governors about school performance data specified in the 2020 document provided by, or on behalf of, a local authority, is to be treated, for the purpose of regulation 5(1) and (3) of the 2013 Regulations, as having completed the required school performance data training.

(2) In this regulation—

“the 2020 document” (“*dogfen 2020*”) means the school performance data training document published by the Welsh Ministers on the gov.wales website on 18 November 2020 and called “Training for school governors in Wales: understanding the role of data in supporting self-evaluation and improvement in schools”;

“school performance data training” (“*hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion*”) has the meaning given by regulation 2(1) of the 2013 Regulations.

**Saving provision**

**4.** Nothing in these Regulations applies to a governor who, before the coming into force of these Regulations, completed the school performance data training required by the 2013 Regulations.

*Kirsty Williams*

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
19 Mawrth 2021

Minister for Education, one of the Welsh Ministers
19 March 2021

©ⓗHawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

(**1**) https://llyw.cymru/hyfforddiant-i-lywodraethwyr-ysgol-yng-nghymru-deall-rol-data-o-ran-cefnogi-hunanwerthuso-gwella.

(**1**) https://gov.wales/training-school-governors-wales-understanding-role-data-supporting-self-evaluation-and-improvement.

ISBN 978-0-348-20811-5

£4.90